



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Iau, 22ain Mawrth, 2018 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/ly Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018 yn rhai cywir.

(Tudalennau 7 - 20)

3. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2016/17

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cyflwyno i'r Cabinet yr wybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

(Tudalennau 21 - 72)

4. ASESIAID O'R FARCHNAD DAI LEOL 2017/18 - 2022/23

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n ceisio cymeradwyaeth Aelodau i ddefnyddio'r Aseiad o'r Farchnad Dai Leol (2017/18-2022/23) yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Darparu Tai.

(Tudalennau 73 - 248)

5. GWASANAETH Y LLYFRGELL DEITHIOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y cynnig i wella'r ansawdd ac ystod o wasanaethau wedi'u darparu gan Wasanaeth y Llyfrgell Deithiol o'u cymharu â'r hyn mae llyfrgelloedd sefydlog yn ei ddarparu wrth sicrhau bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn parhau i fod yn hygyrch i gymunedau ledled Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 249 - 270)

**6. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT –
CRONFA GYFUN: LLETY CARTREFI GOFAL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am y prosiect Cronfa Gyfun ar gyfer Llety Cartrefi Gofal.

(Tudalennau 271 - 326)

7. RHAGLEN WAITH Y CABINET: 2017-18

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet o faterion mae angen eu trafod yn ystod y flwyddyn 2017–18.

(Tudalennau 327 - 362)

8. POLISI DIOGELU DATA

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi trosolwg i Aelodau o'r gwaith sydd wrthi'n cael ei gynnal mewn perthynas â pharatoi'r Cyngor ar gyfer y gofynion wedi'u gosod arno gan Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol fydd yn dod i rym ar 25 Mai 2018.

(Tudalennau 363 - 384)

**9. CANOL TREF PONTYPRIDD: RHEOLEIDDIO GOSOD DODREFN
STRYD AR Y BRIFFORDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi manylion i Aelodau ynghylch yr ymgynghoriad diweddar a gafodd ei gynnal mewn perthynas â chynigion i reoleiddio gosod dodrefn stryd ar y briffordd, sy'n cael eu defnyddio'n arbennig i gefnogi cyfleusterau hamdden a lluniaeth yng nghanol tref

Pontypridd, ac yn helpu'r Cabinet i wneud penderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen.

(Tudalennau 385 - 428)

10. CYFADRAN ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2018/19

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n darparu manylion i Aelodau ynghylch gweithiau cyfalaf i'w cymeradwyo ar gyfer 2018/19, fel rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

(Tudalennau 429 - 444)

11. PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH, A CHYNLLUNIAU STRATEGOL – RHAGLEN ATODOL 2018/19

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi manylion am y rhaglen gyfalaf ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol ar gyfer 2018/19, fel rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

(Tudalennau 445 - 466)

12. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y TRYDYDD CHWARTER

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd, sy'n seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 31 Rhagfyr 2017).

(Tudalennau 467 - 486)

13. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

14. DATBLYGIAD GOFAL YCHWANEGOL MAES-Y-FFYNNON

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ynghylch y gwaith sy'n cael ei gynnal i ailddatblygu hen safle Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon ar gyfer y ddarpariaeth o gynllun tai â gofal ychwanegol yn rhan o Strategaeth Cartrefi Gofal Ychwanegol y Cyngor.

(Tudalennau 487 - 494)

15. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol